# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## Rheolau defnyddio ac ymddygiad Mynwent y Plwyf Betws Garmon

Mae Cyngor Cymuned Waunfawr yn gweinyddu ac yn rheoli Mynwent y Plwyf yn unol â'r Gorchymyn Mynwentydd Llywodraeth Leol 1977. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn pa bynnag fodd sydd yn ddymunol neu'n angenrheidiol er mwyn cadw a gofalu am y safle hwn.

<u>Gofynnir yn garedig i ddefnyddwyr y fynwent hon ddilyn y canllawiau a'r rheolau isod:</u>

- Cadw at y llwybrau lle bod hynny'n bosib.
- Cadw'r fynwent yn daclus a defnyddio'r cyfleusterau ar gyfer sbwriel.
- Cadw amgylchedd heddychlon y safle.
- Defnyddio'r meinciau a ddarperir ar gyfer eistedd.
- Peidio plannu coed neu llwyni.
- Mae'r Cyngor Cymuned yn cadw'r hawl i ofyn i ddefnyddwyr i dynnu unrhyw eitemau anaddas o'r safle. Os na chaiff hyn ei gyflawni o fewn 28 diwrnod yna bydd gan y Cyngor Cymuned hawl i'w tynnu oddi ar y safle. Gall hyn gynnwys eitemau megis addurniadau anweddus ac eitemau sydd yn creu risg iechyd a diogelwch.
- Gwaharddir y defnydd o ddiod feddwol ar y safle.
- Caniateir cŵn ar dennyn sydd yn ymddwyn yn dda. Rhaid codi baw ci, ei gludo o'r fynwent a chael gwared ohono trwy ddefnyddio cyfleusterau addas. Ni ddylid rhoi baw ci yn cyfleusterau sbwriel y fynwent.
- Gofynnwn i ddefnyddwyr osgoi rhoi blodau mewn potiau gwydr.

<u>Ystyrir y canlynol yn droseddau o dan Gorchymyn Mynwentydd Llywodraeth Leol 1977:</u>

- Achosi cynnwrf yn fwriadol mewn mynwent
- Achosi niwsans mewn mynwent
- Creu ymyrraeth mewn perthynas ag unrhyw gladdu sy'n cymryd lle yn y fynwent
- Ymyrryd yn fwriadol efo unrhyw fedd, cofeb neu addurniadau e.e. blodau
- Cymryd rhan mewn chwaraeon neu gemau yn y fynwent
- Mynychu'r fynwent heb ganiatâd y Cyngor Cymuned ar adegau pan nad yw'r fynwent ar agor i'r cyhoedd

Bydd unrhyw berson sydd yn cael eu canfod yn troseddu yn Mynwent y Plwyf yn atebol i gael eu cosbi yn unol a'r cyfreithiau sydd yn rheoli mynwentydd.

**<u>GWYBODAETH PELLACH:</u>**

Mae gwybodaeth am ffioedd Mynwent y Plwyf ar gael ar wefan Cyngor Cymuned Waunfawr a Caeathro: http://ccwaunfawrcaeathro.co.uk/

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn Mynwent y Plwyf at Clerc y Cyngor Cymuned: clerc@ccwaunfawrcaeathro.co.uk

Mae'r Gorchymyn Mynwentydd Llywodraeth Leol 1977 (The Local Authorities' Cemeteries Order 1977) ar gael i'w darllen yma:

https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1977/204/made